# Creu tŷ draenog

Pan fyddwch chi'n effro, mae draenogod yn cysgu. Adeiladwch blasdy cwsg i gadw'r draenog yn hapus.

## Byddwch angen

- Blwch cardbord mawr, trwchus
- Siswrn
- Bag nwyddau mawr, cryf
- Hen bapurau newydd
- Gwellt neu wair sych a glân
- Brigau

**1** Gwnewch fynedfa i'r blwch tua 15cm sgwâr.

**2** Torrwch agoriad 15cm o hyd a 5cm o led ar bob ochr. Rhain fydd y tyllau aer.

**3** Rhowch y papurau newydd wedi'i malu gyda'r gwair sych neu'r gwellt y tu mewn.

**4** Rhowch y blwch mewn man cysgodol wrth ymyl gwrych neu lwyn. Mae angen i'r fynedfa wynebu'r de, os yn bosibl. Nid o'r de y mae glaw yn cyrraedd, fel arfer.

**5** Gorchuddiwch ran ucha'r blwch gyda'r bag nwyddau.

**6** Rhowch bentwr o frigau o gwmpas y blwch ac ar ei ben, nes ei fod yn edrych yn debyg i grwb camel. Llenwch y mannau gwag gyda mwy o ddail a gwair.

**7** Nawr gadwch lonydd iddo, yn y gobaith y cewch ymwelydd bach pigog.

## Byddwch yn ffeind i'r draenogod.

Er waetha'r demtasiwn, peidiwch ag edrych y tu mewn i'r tŷ draenog rhwng misoedd Mai a Medi. Os yw'r fam wedi geni rhai bach ynddo, fe allai eu gadael.

Diolch i Gymdeithas Cadwraeth Draenogod am y syniad yma.

rspb yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).